

Cynnig i Sefydlu Ffederasiwn Yn Ymgorffori Ysgolion Cynradd Gilfach Fargod a'r Parc

Dogfen Ymgynghori



Corff Llywodraethu, Ysgol Gynradd Gilfach Fargod

Corff Llywodraethu, Ysgol Gynradd a'r Parc

Mewn partneriaeth â

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Addysg a Dysgu Gydol Oes)

Medi 2018

RHAGAIR

Mae ffedereiddio ysgolion yn broses gyfreithiol sy'n galluogi ysgolion (rhwng dwy a chwech) i gydweithio drwy broses strwythuredig ffurfiol a rhannu corff llywodraethu a fydd yn gwneud penderfyniadau er budd gorau pob un o'r ysgolion, staff a disgyblion yn y ffederasiwn hwnnw.

Mae cyrff llywodraethu Ysgolion Cynradd Gilfach Fargod a'r Parc wedi cwrdd yn unigol ac ar y cyd gyda'r awdurdod lleol er mwyn hyrwyddo ffederasiwn ffurfiol sy'n cynnwys y ddwy ysgol.

Bydd hunaniaeth unigol y ddwy ysgol yn parhau o ran eu henwau, diwylliant, ethos a byddant yn parhau i fod yn gyfrifol am reoli eu cyllidebau eu hunain. Bydd y broses hon yn cynnwys sefydlu un corff llywodraethu i lywodraethu'r ddwy ysgol.

Mae cyrff llywodraethu'r ddwy ysgol wedi cydweithio yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'n parhau i gael effaith gadarnhaol ar y ddwy ysgol.

Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am hyrwyddo safonau addysgol uchel ac am ddarparu addysg gynradd ac uwchradd effeithlon. Ystyrir bod cael arweinwyr effeithiol yn eu hysgolion yn hollbwysig ar gyfer hyn ac mae'n her sy'n wynebu cynghorau ar hyd a lled Cymru.

O ganlyniad, mae'r ddogfen ymgynghorol hon yn cyflwyno'r achos i newid y trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu yn ysgolion Cynradd Gilfach Fargod a'r Parc. Paratowyd y ddogfen ymgynghori ar y cyd gan y cyrff llywodraethu a'r awdurdod lleol.

Prif ddiben y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth a chasglu safbwyntiau'r rhanddeiliaid a nodwyd. Mae'r atodiadau i'r ddogfen hon yn cyfeirio at yr amodau cyffredinol ar gyfer Ffedereiddio Ysgolion ac o ganlyniad dylid ei darllen yn y cyd-destun priodol ar ffedereiddio Ysgolion Cynradd Gilfach Fargod a'r Parc.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio darparu gwybodaeth a fydd yn eich galluogi i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch y cynnig. Ar dudalen 19 mae ffurflen ymateb y gellir ei dychwelyd i Ysgolion Cynradd Gilfach Fargod a'r Parc neu i'r awdurdod lleol. Croesewir unrhyw adborth, cadarnhaol neu negyddol.

Mae'r ddau gorff llywodraethu yn cynnig y datblygiad ffedereiddio ffurfiol hwn. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich sylwadau ar y cynnig

Howard Llewellyn
Cadeirydd Llywodraethwyr
Ysgol Gynradd Gilfach Fargod

Diane Price
Cadeirydd Llywodraethwyr
Ysgol Gynradd y Parc

Keri Cole
Prif Swyddog Addysg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cynnwys

Adran	Disgrifiad	Tudalen(nau)
1	Y Cynnig	4
2	Cefndir	5-6
3	Ffeithiau Allweddol	7
4	Trefniadau Derbyn a Chyfansoddiad y Corff Llywodraethu	8
5	Manteision a Heriau Ffedereiddio	9-10
6	Atodiad 1: Ffederasiwn (Cymru): Crynodeb	11
7	Atodiad 2: Y Broses Ymgynghori a'r Amserlen	12-13
8	Cwestiynau Cyffredin	14-18
9	Atodiad 3: Ffurflen Ymateb	19

Y Cynnig

Mae cyrff llywodraethu Ysgolion Cynradd Gilfach Fargod a'r Parc, ynghyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (yr ALI) yn cynnig defnyddio'r pwerau a roddwyd gan Reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 i sefydlu Ffederasiwn ysgolion Cynradd Gilfach Fargod a'r Parc.

Mae cyrff llywodraethu Ysgolion Cynradd Gilfach Fargod a'r Parc wedi ymgynghori â'r awdurdod lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili) ac maent yn cefnogi'r cynnig.

Nod Ffederasiwn yw'r ysgolion weithio mewn partneriaeth i:

- datblygu arfer a rennir rhagorol, sy'n gwarantu profiadau a rennir rhagorol a chynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion a staff
- datblygu nodau cyffredin a dulliau adlewyrchol at addysgu a dysgu a fydd yn sicrhau bod y ddwy gymuned yn elwa o addysg o safon.

Bydd hyn yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol sylweddol a safonau gwell i bawb.

Mae'r tîm 'Ffedereiddio' yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae'r ysgolion dan sylw yn cydweithio mewn partneriaeth ffurfiol o dan un corff llywodraethu. Bydd y cyrff llywodraethu presennol yn cael eu diddymu a'u disodli gan un corff llywodraethu newydd, a fydd â goruchwyliaeth strategol dros y ddwy ysgol.

Enw arfaethedig y Ffederasiwn yw 'Ffederasiwn Ysgolion Cynradd Gilfach Fargod a'r Parc'.

Os derbynnir y cynnig, daw'r Ffederasiwn i rym ar 1 Medi 2019.

Cefndir

Mae'r ddwy ysgol wedi gweithio ar sail gydweithredol ers Medi 2016.

Mae'r dull cydweithredol hwn yn parhau mewn grym ac yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar y ddwy ysgol.

Mae Ysgol Gynradd Gilfach Fargod yn ysgol gymunedol, gymysg, Cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3-11 oed .

Mae nodweddion yr ysgol (2017) fel a ganlyn:

Capasiti (ac eithrio'r Ysgol Feithrin)	168
Nifer Derbyn	24
Disgyblion ar y gofrestr (Medi 2017) – ac eithrio'r Ysgol Feithrin	170
Prydau Ysgol am Ddim (FSM) – cyfartaledd 3 blynedd (2014-2017)	27.9%
Cymhareb Disgyblion i Athrawon	24.5
Presenoldeb yn ystod y flwyddyn	94.8%
Disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2	89.5%
Disgyblion sy'n cyflawni'r canlyniad disgwyliedig ym meysydd dysgu'r cyfnod sylfaen	90.5%
Categori Cefnogaeth (2017)	Gwyrdd

Mae Ysgol Gynradd y Parc yn ysgol gymunedol, gymysg, Cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3-11 oed.

Mae nodweddion yr ysgol (2017) fel a ganlyn:

Capasiti (ac eithrio'r Ysgol Feithrin)	144
Nifer Derbyn	20
Disgyblion ar y gofrestr (Medi 2017) – ac eithrio'r Ysgol Feithrin	104
Prydau Ysgol am Ddim (FSM) – cyfartaledd 3 blynedd (2014-2017)	54%
Cymhareb Disgyblion i Athrawon	20.6
Presenoldeb yn ystod y flwyddyn	94.6%
Disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2	81.8%
Disgyblion sy'n cyflawni'r canlyniad disgwyliedig ym meysydd dysgu'r cyfnod sylfaen	93.3%
Categori Cefnogaeth (2017)	Ambr

Pellter o 0.5 milltir yn unig sydd rhwng y ddwy ysgol.

Drwy ffedereiddio, bydd y ddwy ysgol yn parhau i gydweithio o dan arweinyddiaeth a rennir er mwyn manteisio ar eu cryfderau i wella safonau ar draws y ffederasiwn a mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella, gyda'i gilydd.

Drwy ffedereiddio o dan un corff llywodraethu, gellir datblygu ymhellach yr hinsawdd o ymddiriedaeth, gonestrwydd a pharodrwydd i gydweithio sydd eisoes yn bodoli.

Ffeithiau allweddol :

- Bydd un corff llywodraethu unigol a fydd yn gyfrifol am oruchwylio pob ysgol o fewn y ffederasiwn yn strategol.
- Bydd pob ysgol yn cadw ei henw, categori, cyllideb, staff ei hun ac yn parhau yn ei chymuned ei hun.
- Bydd pob un o'r ysgolion yn derbyn arolwg unigol gan Estyn, er mae'r rhain yn cael eu cydlynu fwyfwy i gael eu cynnal yr un pryd ar gyfer pob ysgol mewn ffederasiwn er mwyn lleihau straen ac amhariad.
- Gall corff llywodraethu ffederasiwn ddefnyddio adnoddau a staff ar draws y ffederasiwn er mwyn gwella'r canlyniadau addysgol i bob disgybl.
- Mae'n rhaid cadw llwybr archwilio a chynhyrchu cyfrifon unigol ar gyfer pob ysgol yn y ffederasiwn.
- Ni all corff llywodraethu ffederasiwn fynnu bod staff presennol yn gweithio ar draws pob ysgol mewn ffederasiwn, ond gallant drafod gydag undebau staff yr ysgol a ellir cyflwyno contractau hyblyg.
- Gellir penodi staff newydd i weithio ar draws ysgolion yn y ffederasiwn.

Trefniadau Derbyn

Ni fydd y trefniadau derbyn ar gyfer pob ysgol yn newid. Yr Awdurdod Lleol yw'r awdurdod derbyn ar gyfer pob ysgol. Bydd rhieni yn gwneud cais am le i'w plentyn yn eu hysgol o ddewis, nid i'r Ffederasiwn, oherwydd mae pob ysgol yn y ffederasiwn yn ysgol ar wahân. Os na roddir lle i blentyn yn eu hysgol o ddewis, bydd yn rhaid gwneud cais ar wahân i fynychu ysgol arall. Mae hyn yn wir hyd yn oed os mai'r ail ysgol y gwneir cais am le ynddi yw'r ysgol arall yn y ffederasiwn.

Cyfansoddiad Corff Llywodraethu:

	Argymelledig
A benodwyd gan yr ALI	4
Pennaeth	1
Athrawon	2
Staff	2
Rhiant Lywodraethwyr	4
Llywodraethwyr Cymunedol	5
- a benodwyd gan y gymuned	1
- a benodwyd gan y corff llywodraethu	4
CYFANSWM	<u>18</u>

Mae'r nifer a argymhellir yn deillio o'r uchafswm ym mhob categori a ganiateir o fewn y rheoliadau mewn cysylltiad â rhiant lywodraethwyr a llywodraethwyr cymunedol. Er mwyn darparu ar gyfer y nifer presennol, cynigir y bydd unrhyw lywodraethwyr sy'n cael eu disodli yn cael eu cyfethol i ddechrau. Gellir lleihau'r nifer hwn er mwyn alinio â Rheoliadau Llywodraeth Cymru dros amser.

Manteision Ffedereiddio :

- Cysondeb methodoleg addysgu a dysgu, yn arbennig ar draws y cyfnodau.
- Lleihau gostyngiadau trosiannol ym mherfformiad y disgyblion.
- Symleiddio polisïau a strwythurau.
- Rhannu arfer da, paratoi deunyddiau ac adnoddau.
- Cyfleoedd gwell ar gyfer gweithgareddau disgyblion.
- Cyfleoedd gwell ar gyfer datblygiad proffesiynol staff.
- Mwy o gyfleoedd i ddatblygu rheolaeth ganol.
- Gall ysgolion ddewis strwythur uwch arweinyddiaeth sy'n gweddu eu hamgylchiadau hwy gan arwain at broses haws o recriwtio staff a Phenaeithaid, yn arbennig os bu anawsterau.
- Cyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth ysgolion y tu hwnt i ysgolion unigol.
- Cyfleoedd i wneud y defnydd gorau o adnoddau ac arbenigedd proffesiynol a chyflawni effeithlonrwydd ariannol o arbedion maint.
- Hyrwyddo llesiant ehangach myfyrwyr drwy gynnig y posibilrwydd o uno gwasanaethau bugeiliol, iechyd, gyrfaedd, ieuencid a gwasanaethau eraill er mwyn cyflawni eu hanghenion cyffredinol.
- Cefnogaeth i ysgolion sy'n profi anhawster. Gall ysgolion â chryfderau gyfrannu at y broses o ddysgu eraill.
- Cynorthwyo gwelliant ysgolion drwy alluogi ysgolion i ddefnyddio adnoddau ysgolion eraill er mwyn mynd i'r afael â phroblemau, rhannu arbenigedd, codi disgwyladau a mynd i'r afael ag anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion.
- Proses haws o recriwtio llywodraethwyr a llai o swyddi gwag llywodraethwyr.
- Gall ysgolion bach yn benodol elwa hefyd drwy: Datblygu rhwydweithiau ar gyfer cefnogaeth bersonol. Rhannu arbenigedd ac adnoddau. Trefnu datblygiad proffesiynol. Trefnu gweithgareddau disgyblion ar y cyd.

Hanfodion ffederasiwn llwyddiannus

- Meithrin ymddiriedaeth rhwng ALL, llywodraethwyr a chymunedau ysgolion, sy'n hollbwysig i lwyddiant ffederasiynau ac mae'n rhaid meithrin hyn ar bob lefel reoli.
- Ymrwymo amser ac adnoddau gan bob ysgol gysylltiedig.
- Gweledigaeth a rennir a diben cyffredin o'r hyn sydd angen ei wneud a sut i wella cyrhaeddiad a chyflawniad ar bob lefel.
- Hunaniaeth a rennir rhwng yr ysgolion e.e. agosrwydd daearyddol a nodau cyffredin o ran gweithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol.
- Strwythurau arwain a rheoli clir.
- Amser digonol i bob parti fod yn fodlon â'r newidiadau arfaethedig.
- Pawb yn teimlo fel partner cyfartal.
- Ymdeimlad o berchnogaeth o'r broses gan yr ysgolion.
- Cyfathrebu da gyda'r rhieni a'r staff ynglŷn â'r newidiadau a gyflwynir gan y ffederasiwn.

Heriau ffedereiddio

- Baich gwaith uwch i'r llywodraethwyr wrth ddechrau'r broses ac yn ystod y flwyddyn gyntaf.
- Pryder cychwynnol ymhlith y llywodraethwyr, rhieni a'r staff – mae angen amser i'r ffederasiwn sefydlogi.

Fodd bynnag, mae'r Llywodraethwyr wedi bod yn gweithio'n llwyddiannus ar y cyd ers Medi 2016.

Ffederasiwn (Cymru) : Crynodeb

Polisi :

Amcan polisi Llywodraeth Cymru yw hyrwyddo cydweithrediad rhwng holl rannau'r system addysg, er mwyn gwella canlyniadau. Mae ffedereiddio ysgolion yn ffordd fwy ffurfiol o ymestyn cydweithrediad a hyrwyddo perthnasoedd gwaith agosach.

Deddfwriaeth :

Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014.

Crynodeb :

Mae ffedereiddio ysgolion yn broses gyfreithiol sy'n galluogi ysgolion (rhwng dwy a chwech) i weithio gyda'i gilydd drwy broses strwythuredig ffurfiol drwy rannu corff llywodraethu a fydd yn gwneud penderfyniadau er budd gorau'r holl ysgolion, staff a disgyblion yn y ffederasiwn hwnnw.

Y rheswm pwysicaf dros ystyried ffedereiddio fyddai'r buddiannau y byddai trefniant o'r fath yn ei ddarparu i'r plant a'r bobl ifanc yn yr ysgolion sy'n ffedereiddio drwy wella'r ddarpariaeth addysgol.

Gall ffedereiddio ddarparu sail ar gyfer datblygiad a gwelliant cynaliadwy hir dymor.

I lwyddo, mae'n rhaid i ffederasiwn fod yn seiliedig ar ymrwymiad i weithio fel grŵp o ysgolion a pharodrwydd i wneud pethau'n wahanol er budd ychwanegol i bob disgybl, eu llesiant a'u cyflawniadau.

Un o fanteision ffedereiddio yw bod ysgolion sy'n ffedereiddio yn parhau yn eu cymunedau ac yn cadw eu hunaniaeth unigol. Fodd bynnag, bydd y cyrff llywodraethu presennol yn cael eu diddymu, ac yn cael eu disodli gan gorff llywodraethu unigol, newydd a fydd yn goruchwyllo gwaith pob un o'r ysgolion yn y ffederasiwn a bydd ganddynt gyfrifoldeb cyfartal dros bob un ohonynt.

Mae aelodaeth corff llywodraethu mewn ffederasiwn o ysgolion bron yn union yr un fath ag aelodaeth corff llywodraethu cyffredin, gyda'r holl randdeiliaid yn cael eu cynrychioli er od mwy o hyblygrwydd yn y cyfrannau o gynrychiolaeth o bob categori o lywodraethwyr. Mae hyn yn golygu y gall corff llywodraethu ffedereiddiad ddewis cyfansoddiad ac aelodaeth sy'n gweddu eu hamgylchiadau arbennig hwy, cyhyd ag y bydd ganddynt o leiaf 15 llywodraethwr a dim mwy nac uchafswm o 27 llywodraethwr a'u bod yn glynu at y nifer gofynnol a'r uchafswm o ran nifer y llywodraethwyr a nodir yn y rheoliadau.

Bydd ysgolion mewn ffederasiwn yn cynnal eu cyllideb, enw, cymeriad, gwisg ysgol a'u hethos eu hunain a gallant archwilio manteision rhannu adnoddau megis cyfleusterau, TG, staff, adeiladau ysgol ac yn y blaen.

Ni fydd penderfyniad i ffedereiddio a wneir gan ysgolion neu Awdurdodau Lleol yn tanseilio'r angen i ALI ymyrryd neu weithredu ar faterion gwella ysgol neu drefniadaeth ysgol.

Y Broses Ymgynghori

Mae'n ofyniad statudol i ofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid ar gynigion ffedereiddio, p'un a yw'r cynnig i ffedereiddio wedi'i gynnig gan gyrff llywodraethu'r ysgolion dan sylw neu'r ALL.

Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli cyfrifoldeb y Cyngor o dan Reoliad Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 i ymgynghori â rhanddeiliaid priodol.

Prif ddiben y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth a chasglu safbwyntiau rhanddeiliaid a nodwyd.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn gofyn am safbwyntiau'r rhanddeiliaid canlynol:

- Disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni/gwarcheidwaid pob ysgol
- Cymdeithasau staff addysgu a chymorth

Dosberthir y ddogfen ymgynghori hefyd i'r canlynol:

- Aelodau wardiau lleol pob ysgol
- Cynghorau Ysgolion
- ESTYN
- Bwrdd Addysg yr Esgobaeth Gatholig
- Pwyllgor Craffu Dysgu am Oes
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg

Cyhoeddir copi o'r cynnig hefyd ar wefan y Cyngor.

Bydd copi o'r cynnig ar gael hefyd i'w archwilio ar adegau rhesymol yn yr ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig ffedereiddio.


Cyflwynir y sylwadau a dderbynnir drwy'r broses ymgynghori i'r Cabinet er mwyn gwneud y penderfyniad terfynol.

Cynhelir y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig hwn am 6 wythnos o 22^{ain} Hydref 2018 i'r 10^{fed} Rhagfyr 2018.

Yn ystod y cyfnod hwn gallwch fynegi eich safbwyntiau yn ysgrifenedig i Ysgolion Cynradd Gilfach Fargod a'r Parc neu'r awdurdod lleol.

Amserlen

Dangosir yr amserlen ar gyfer y Ffedereiddio arfaethedig yn y diagram canlynol:



Cwestiynau Cyffredin

C1. Beth yw Ffederasiwn?

Mae ffederasiwn yn strwythur llywodraethu cyfreithiol lle mae rhwng dwy a chwe ysgol yn rhannu un corff llywodraethu. Bydd yr ysgolion yn cadw eu hunaniaeth, enw, ethos, cyllideb a'u gwisg ysgol eu hunain ond gallant rannu adnoddau, cyfleusterau ac arfer da.

C2. Pam y dylai ysgolion ffedereiddio?

Mae cydweithio drwy strwythur corff llywodraethu unigol yn galluogi ysgolion i godi safonau a chynnal y ddarpariaeth addysg leol drwy rannu adnoddau, staff, arbenigedd a chyfleusterau a rhannu arfer gorau. Mae corff llywodraethu unigol hefyd yn darparu dull effeithiol ac atebol i ysgolion grynhoi adnoddau, gan gynnwys staff a chyllidebau, rhyddhau capasiti i'r uwch dîm rheoli a sicrhau arbedion maint ac effeithlonrwydd.

C3. Beth yw manteision ffedereiddio?

Bydd ffedereiddio yn galluogi ysgolion i wneud y canlynol yn haws:

- ymestyn ehangder ac ansawdd y ddarpariaeth
- ymateb i anghenion ehangach disgyblion
- hwyluso'r broses o ryddhau ein harweinwyr, athrawon a llywodraethwyr ysgolion cryfach i gynorthwyo ysgolion nad ydynt yn perfformio cystal
- ehangu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff
- cyflawni gwerth am arian gwell.

C4. Pam y gallai ysgolion llai elwa o ffedereiddio?

Gall ffedereiddio helpu ysgolion cynradd gwledig bychain i barhau yn eu cymunedau. Mae rhannu corff llywodraethu yn darparu dull effeithiol ac atebol i ysgolion grynhoi adnoddau a staff, sicrhau arbedion maint ac effeithlonrwydd sy'n eu galluogi i barhau i fod yn hyfyw. Gallai ysgolion llai mewn ardaloedd mwy gwledig ac ynysig elwa hefyd oherwydd gallai ffedereiddio gyflwyno cyfleoedd i rannu rheolwyr, cyfrifoldeb corff llywodraethu ac arbenigedd cwricwlaidd. I ysgolion cynradd bach, byddai'n eu galluogi i ddarparu addysg gynradd gyfoethocach drwy, er enghraifft, rannu athrawon iaith arbenigol neu athrawon drama.

C5. Beth yw manteision a risgiau Ffedereiddio?

Mae yna nifer o fanteision i ysgolion fod yn rhan o ffederasiwn, gan gynnwys profiadau dysgu a chymdeithasu ehangach i'r plant, gan arwain at berfformiad gwell disgyblion. Gall ysgolion rannu adnoddau, arfer gorau, cyfleusterau ac arbenigedd. Gellir rhoi pwyslais pellach ar strwythurau arwain a rheoli strategol, a bydd y staff yn cael cyfleoedd newydd i gydweithio a lleihau ynysiad. Gellir osgoi dyblygu ymdrech ac mae cyfleoedd i hyrwyddo arbedion maint gwell.

Mae rhai o'r risgiau yn cynnwys anawsterau sefydliadol o ran darparu cwricwlwm ar draws nifer o ysgolion. Gallai cyfathrebu gyda rhieni a staff mewn gwahanol ysgolion gyflwyno her. Gallai'r costau teithio fod yn uwch os bydd staff a disgyblion yn symud rhwng ysgolion i gyflawni anghenion y cwricwlwm. Gallai materion perthynas ac ymddiriedaeth fodoli i lywodraethwyr, Penaethiaid a staff sy'n gweithio ar draws yr ysgolion. Dylai'r corff llywodraethu sydd wedi'i ffedereiddio fod yn ymwybodol o'r risgiau posibl a bod ganddynt strategaethau a champau gweithredu i'w lliniaru.

C6. A fydd fy ysgol yn colli ei hunaniaeth o fewn Ffederasiwn?

Ni fydd ysgolion o fewn ffederasiwn yn colli eu hunaniaeth unigol er y byddant yn rhannu un corff llywodraethu. Mae'r ysgolion yn cadw eu statws cyfreithiol unigol a bydd ganddynt eu cyllideb eu hunain a byddant yn derbyn eu Harolwg unigol gan Estyn. Bydd yr ysgolion hefyd yn parhau yn eu cymuned ac yn cadw eu cymeriad, enw, ethos a gwisg ysgol eu hunain. Er y bydd pob ysgol yn derbyn eu cyllideb unigol eu hunain, y maent hwy'n atebol amdani, mae cwmpas, drwy'r corff llywodraethu unigol, i ddefnyddio cyllidebau wedi'u crynhoi ar draws yr ysgolion yn y ffederasiwn. Mae ffedereiddio yn gweithio ar y sail y bydd gan bob ysgol eu cryfderau a'u manteision unigol eu hunain, boed hynny'n gyfleusterau, staff neu adnoddau.

C7. Beth yw'r trefniadau Arolygu ar gyfer Ysgolion wedi'u Ffedereiddio?

Mae dogfen Estyn 'Pryd y cynhelir yr arolwg ysgol nesaf?' yn cyflwyno canllaw ar arolygu ysgolion wedi'u ffedereiddio. Mae Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Estyn arolygu ysgolion a gynhelir bob chwe blynedd a chynhyrchu adroddiad unigol ar gyfer pob ysgol. Byddai hyn hefyd yn berthnasol i ysgolion yn y ffederasiwn. Ni all Estyn symud arolwg ysgolion y tu hwnt i'r cyfnod chwe blynedd ond gallai gynnal arolygon mewn ffordd sy'n golygu bod yr ysgolion mewn ffederasiwn yn cael eu harolygu yn ystod yr un tymor, yn benodol pan fydd gan yr ysgolion yr un Pennaeth. Byddai Estyn hefyd yn ystyried ceisiadau gan gorff llywodraethu neu ALI i arolygu ysgolion yn ystod yr un tymor. Byddai Estyn hefyd yn ceisio sicrhau bod gan y timau a fydd yn arolygu'r ysgolion mewn ffederasiwn aelodaeth sy'n gorgyffwrdd.

C8. Beth sy'n digwydd i staff mewn ffederasiwn? A fydd eu Hamodau Gwasanaeth yn newid?

Mewn ffederasiwn, bydd pob aelod o staff yn cael eu cyflogi ar yr un amodau gwasanaeth presennol a chan yr un cyflogwr. Bydd cyflogwr presennol y staff yn parhau i fod yn gyflogwr o dan y contract cyflogaeth. Ar gyfer ysgolion cymunedol, gwirfoddol a reolir, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir, yr ALI yw'r cyflogwr o dan y contract cyflogaeth er mai corff llywodraethu'r ffederasiwn fydd yn gyfrifol am rai swyddogaethau staffio penodol, h.y. cwynion staff, medrusrwydd, diswyddo, materion disgyblu a diswyddo a phenodiadau. Y corff llywodraethu yw'r cyflogwr o dan y contract cyflogaeth i staff mewn ysgolion gwirfoddol a gynhelir ac ysgolion sefydledig.

Dylai cynllunio strategol ac ariannol cyfunol olygu y gellir diogelu swyddi'n well mewn unrhyw gyfnod o gyfngiad ac y gellir gwneud y defnydd gorau o staff arbenigol, gan

gydnabod bod gan bob aelod o staff cymorth ac addysgu sgiliau a gwybodaeth arbenigol. Gallai staff dysgu gan ei gilydd hefyd o fewn dull gweithredu cydlynol er mwyn cyflawni cymunedau dysgu proffesiynol sy'n defnyddio data a'r Model Cenedlaethol i ganolbwyntio ar welliannau ysgol sy'n cysylltu â blaenoriaethau cenedlaethol a'u cynlluniau datblygu ysgol.

Gallai corff llywodraethu ffederasiwn benodi staff newydd i weithio ym mhob un o'r ysgolion o fewn y ffederasiwn. Gallai hyn gynnwys penodi un Pennaeth sy'n gyfrifol am bob un o'r ysgolion yn y ffederasiwn, neu benodi Bwrsar neu berson â sgiliau rheoli ariannol a/neu sgiliau rheoli busnes i oruchwylio agweddau heb fod yn addysgu o'r busnes ffedereiddio.

C9. A all ffederasiwn gael un Pennaeth sydd â chyfrifoldeb dros bob ysgol yn y ffederasiwn hwnnw?

Gall, os dyna mae'r ysgolion yn ei ddymuno a gallai hyn fod yn opsiwn hyfyw mewn ffederasiwn o ysgolion cynradd gwledig bach. Pan ddewisir yr opsiwn hwn ar gyfer ffederasiwn mwy o hyd at chwe ysgol, h.y. dylai ysgol uwchradd a'i hysgolion cynradd bwydo lle bydd gan bob un o'r ysgolion hynny nifer fawr o ddisgyblion, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ystyried sut y gellir rheoli'r trefniant hwn ac unrhyw strwythur cymorth y gallai fod ei angen ar Bennaeth unigol. Er enghraifft, gellir ystyried gweithredu strwythur rheoli sy'n mynd i'r afael ag anghenion unigol pob un o'r ysgolion, gan gefnogi dilyniant cwricwlaidd ar draws y ffederasiwn hefyd. Gallai hyn olygu cael staff ym mhob ysgol sy'n canolbwyntio ar addysgu a dysgu, wedi'u hategu gan strwythur o swyddi sy'n gweithio ar draws y ffederasiwn, ac y gallai un Pennaeth fod yn gyfrifol am eu rheoli.

Opsiwn arall y gallai cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ei ystyried fyddai i'r ysgolion mewn ffederasiwn gadw Pennaeth pob un o'r ysgol yn hytrach na phenodi un Pennaeth.

O safbwynt gweithredol o ddydd i ddydd, gallai ysgolion ystyried mabwysiadu trydydd opsiwn, sef penodi pennaeth y ffederasiwn a chynnal Pennaeth ym mhob un o'r ysgolion. Pe byddai'r trefniant hwn yn cael ei gymeradwyo, o safbwynt llywodraethu yn unig, byddai'r Pennaeth sy'n gyfrifol am y ffederasiwn, pe gwneir penodiad o'r fath, yn aelod o'r corff llywodraethu. Pe na fyddai penodiad o'r fath yn cael ei wneud, gall Pennaethiaid pob un o'r ysgolion fod yn llywodraethwyr.

C10. A fyddai 'Pennaeth' sy'n bennaf gyfrifol am y ffederasiwn yn gyfrifol am reoli Pennaethiaid pob ysgol yn y ffederasiwn os dyna'r strwythur y cytunwyd arno?

Gall y corff llywodraethu ddewis penodi un pennaeth ar y ffederasiwn, sydd â'r cyfrifoldeb llawn dros bob un o'r ysgolion yn y ffederasiwn a byddai un uwch athro/athrawes neu Ddirprwy Bennaeth yn gyfrifol am bob ysgol. Os nad yw'r athro/athrawes wrth y llyw yn Bennaeth cymwys sy'n cyflawni'r amrediad llawn o ddyletswyddau statudol Pennaeth, yna pennaeth y ffederasiwn fyddai'n gyfrifol am reoli perfformiad y staff hynny. Y corff llywodraethu fyddai'n gyfrifol am reoli perfformiad pennaeth y ffederasiwn.

C11. Sut y dylid talu penaethiaid ffederasiynau?

Yn dilyn argymhelliad gan y Corff Adolygu Athrawon Ysgol (STRB), mae'r Adran Addysg yn Lloegr yn diweddarau dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol yn awr er mwyn adlewyrchu taliadau interim i benaethiaid sy'n gyfrifol am fwy nac un ysgol.

C12. A yw rhiant lywodraethwyr yn cael eu hethol gan y rhieni o'u hysgol hwy yn unig neu gan rieni ar draws pob un o'r ysgolion yn y ffederasiwn?

Dylai'r cynnig ar gyfer ffederasiwn ddatgan y nifer o riant lywodraethwyr o bob ysgol ac yn gyfreithiol mae hynny'n golygu bod yn rhaid bob gan bob ysgol o leiaf un rhiant lywodraethwr sydd wedi'i ethol gan y rhieni (neu wedi'u penodi gan y corff llywodraethu os na fydd unrhyw riant yn sefyll i'w hethol), yn yr ysgol honno ond dim mwy na dau riant lywodraethwyr o bob ysgol. Felly mae'n rhesymol, ar ôl gwneud penderfyniad ar faint o riant lywodraethwyr a fyddai gan bob ysgol, dim ond rhieni'r ysgol honno ddylai bleidleisio yn yr etholiadau ar gyfer rhiant lywodraethwyr. Os penderfynir y dylai fod gan yr ysgol honno ddau riant lywodraethwyr yr un, ac na fydd rhieni mewn ysgol benodol yn sefyll i'w hethol, gall y corff llywodraethu sydd wedi'i ffedereiddio benodi rhiant lywodraethwyr yn unol ag Atodlen 2 Rheoliadau Ffederasiwn 2014. Mae hyn yn golygu y gallai'r corff llywodraethu benodi rhiant disgybl sydd wedi cofrestru yn yr ysgol; neu riant disgybl cofrestredig o ysgol arall yn y ffederasiwn; neu riant plentyn o oedran ysgol gorfodol (neu oedran ysgol gorfodol ar gyfer ysgol feithrin).

C13. A all y Ffederasiwn gael ei gyfyngu i gyfnod penodol o amser?

Dylid ystyried ffedereiddio fel ymrwymiad hirdymor ac nid ateb cyflym. Bydd yr ALI neu'r cyrff llywodraethu dan sylw wedi ystyried yn fanwl y manteision a'r risgiau o sefydlu ffederasiwn o ran effaith hynny ar gyflawniadau'r plant 'ar bobl ifanc. Byddai ffederasiwn yn sefydlu cynlluniau strategol a gweithredol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a datblygiad yr ysgolion. Bydd hynny'n galw am gynllunio yn y tymor canolig i'r tymor hir. Er hynny, mae Rheoliadau Ffedereiddio 2014 yn caniatáu i ysgolion unigol adael ffederasiwn ac i ffederasiwn gael ei ddiddymu.

C14. Beth yw'r gwahaniaethau rhwng ffedereiddio ysgolion ac uno ysgolion?

Os bydd dwy ysgol yn uno byddant yn parhau i fod ar agor yn eu cymuned ond byddant yn un ysgol â safleoedd lluosog, gydag un enw, corff llywodraethu, Pennaeth, ethos, cyllideb, cymeriad a gwisg ysgol. Mewn uniad byddai un Pennaeth ac mae'n bosibl y byddai diswyddiadau neu y byddai'n rhaid i staff ail-ymgeisio am swyddi yn yr ysgol unigol newydd. Mewn ysgolion aml-safle, gallai'r ALI hefyd ddewis cau un o'r safleoedd ysgol a throsglwyddo'r disgyblion i safleoedd eraill heb orfod mynd drwy'r cynigion statudol.

Mewn ffederasiwn, mae'r ysgolion yn parhau i fod ar agor yn eu cymunedau ond maent hefyd yn cadw eu hunaniaeth, enw, ethos, cymeriad, cyllideb a'u gwisg ysgol eu hunain. Byddai staff hefyd yn cadw eu swyddi ac efallai y bydd ganddynt gyfleoedd ehangach ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus drwy weithio ar draws yr ysgolion yn y ffederasiwn. Bydd y Penaethiaid hefyd yn parhau yn eu swyddi, er y gallai fod gan rai ffederasiynau un Pennaeth yn unig. Gellir cau ysgolion mewn ffederasiwn fel rhan o

gynigion ail-drefnu ysgolion, ond byddai'n rhaid i'r ALI ddefnyddio'r broses cynigion statudol i wneud hyn.

C15. A all ysgolion sefydlu corff llywodraethu ar y cyd cyn ffedereiddio'n ffurfiol?

Na - daw corff llywodraethu ysgolion wedi'u ffedereiddio i rym ar y diwrnod y daw'r ffederasiwn i rym, ac mae'n rhaid i hynny fod o leiaf 125 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion ffedereiddio (neu 100 diwrnod os bydd ysgolion bach yn cael eu ffedereiddio). Mae hynny'n golygu y bydd corff llywodraethu'r ysgolion sy'n ffedereiddio wedi cynnal etholiadau ar gyfer y llywodraethwyr craidd h.y. rhieni, athrawon a staff a bydd yr ALI wedi gorfod penodi eu llywodraethwyr ALI eu hunain. Ar y dyddiad y daw'r ffederasiwn i rym, gall y corff llywodraethu unigol newydd gyfarfod a phenodi eu llywodraethwyr cymunedol. Fodd bynnag, gall yr ysgolion sefydlu gweithgor neu bwyllgor o lywodraethwyr i oruchwylio'r broses ffedereiddio os byddant yn dymuno.

C16. Allwn ni newid enw'r ysgol a / neu roi'r un enw i'r holl ysgolion yn y ffederasiwn?

Un o brif ysgogwyr a manteision ffedereiddio yw nad yw ysgolion yn colli eu hunigoliaeth, eu henw na'u hunaniaeth a byddant yn parhau fel sefydliadau ar wahân. Bydd enwau pob un o'r ysgolion yn y ffederasiwn yn ymddangos ar yr offeryn llywodraethu newydd yn ogystal ag enw'r ffederasiwn. Mae'r broses ar gyfer diwygio'r offeryn llywodraethu a newid manylion megis enwau'r ysgolion wedi'i nodi yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005. Dylai'r ALI a'r corff llywodraethu gytuno ar y newidiadau arfaethedig. Os na allant gytuno, yr ALI fydd yn gyfrifol am y penderfyniad terfynol, a fydd yn awyddus i sicrhau na fydd unrhyw newidiadau yn gamarweiniol.

Mae'n rhaid i bob ysgol mewn ffederasiwn gynnal eu rhif cyfeirnod a'u cyllideb eu hunain a gallai fod yn gymhleth a dryslyd iawn pe byddai pob un o'r ysgolion yn penderfynu newid eu henw a defnyddio un enw pan fydd ganddynt gyfrifoldeb dros gyllidebau ar wahân.

Ffurflen Ymateb

Cynnig i Ffedereiddio Ysgolion Cynradd Gilfach Fargod a'r Parc

Nodwch y bydd unrhyw sylwadau a wnewch ar gael fel rhan o'r adroddiad dilynol. Ni ofynnir i chi ddarparu manylion personol. Bydd yr holl wybodaeth a roddwch yn cael ei thrin yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

Nodwch pa un o'r canlynol sy'n adlewyrchu eich safbwyntiau chi orau:

Nid wyf yn teimlo'n gryf y naill ffordd na'r llall

Rwy'n cefnogi'r cynnig

Nid wyf yn cefnogi'r cynnig

Darparwch eich sylwadau ar y cynnig i ffedereiddio Ysgolion Cynradd Gilfach Fargod a'r Parc:

Printiwch yr Enw: _____

Categori'r ymatebwr (e.e. rhiant) _____

Os ydych yn rhiant, pa ysgol mae eich plentyn(plant) yn ei mynychu: _____

Cyfeiriad: _____

Cod post: _____

E-bost: _____

Rhif ffôn: _____

Ar ôl ei chwblhau, dychwelwch i:

Ysgol Gynradd Gilfach Fargod, Stryd Vere, Bargod, CF81 8LB neu

Ysgol Gynradd y Parc, Cilgant y Parc, Bargod, CF81 8PN neu

Keri Cole, Prif Swyddog Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tŷ Penallta, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG.

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymatebion yw Dydd Llun 10fed Rhagfyr 2018.